Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales




# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2022-23

**Fersiwn 1**

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in English

## Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan Raglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2022 tan ddiwedd mis Mawrth 2023.

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2022-23
Dyddiad: Tachwedd 2024
ISBN: 978-1-83766-515-0

## Manylion cyswllt

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

## Datganiad sicrhau ansawdd

Mae cofnodion data sgrinio yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae’r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru’n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi’i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy’n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai’r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru’n barhaus a gall fod mân addasiadau i’r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o’r naill flwyddyn i’r llall yn sgil diweddaru’r data. Weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

## Gwybodaeth am hawlfraint

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llun y clawr gan Neil Latham, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Cynnwys ..... 4
Tablau ..... 5
Ffigurau ..... 5
Negeseuon allweddol ..... 6
Cyflwyniad ..... 7
Cefndir ..... 7
Cyflawni'r rhaglen ..... 9
Llwybr sgrinio ..... 9
Penawdau ystadegol ..... 12
Data ..... 13
Cwmpas ..... 13
Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ..... 18
Cynnig sgrinio'n amserol ..... 20
Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio ..... 23
Retinopathi a Nodwyd ..... 26
Diffiniadau ..... 32
Tîm Cynhyrchu ..... 35
Manylion cyswllt y rhaglen ..... 36

# Tablau

Tabl 1: Cwmpas 2022-23 ..... 14
Tabl 2: Tuedd tair blynedd cwmpas ..... 15
Tabl 3: Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 15
Tabl 4: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd 2022-23 ..... 16
Tabl 5: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio 2022-23 ..... 19
Tabl 6: Tuedd tair blynedd canran sgrinio ..... 19
Tabl 7: Canran sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 19
Tabl 8: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis 2022-23 ..... 21
Tabl 9: Tuedd tair blynedd cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis ..... 21
Tabl 10: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 21
Tabl 11: Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod 2022-23 ..... 24
Tabl 12: Tuedd tair blynedd canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod ..... 24
Tabl 13: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 24
Tabl 14: Dadansoddiad o bresenoldeb retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 28
Tabl 15: Canlyniadau retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 29
Tabl 16: Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) i Offthalmoleg o fewn 14 diwrnod yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 30
Tabl 17: Pob atgyfeiriad brys i Offthalmoleg yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 31

# Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ..... 11
Ffigur 2: Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 16
Ffigur 3: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd ..... 17
Ffigur 4: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 22
Ffigur 5: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2022-23 ..... 25

# Negeseuon allweddol

- Mae sgrinio llygaid yn rheolaidd yn lleihau'r risg o golli golwg a achosir gan retinopathi diabetig.
- Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod cyffredin mewn diabetes sy'n effeithio ar y rhan o'r llygad sy'n 'gweld': y retina.
- Mae retinopathi yn cael ei achosi pan fydd pibellau gwaed bach yn y retina yn tyfu neu'n gollwng. Dros amser, gall hyn effeithio ar olwg dros dro neu'n barhaol.
- Hyd nes iddo gyrraedd cam hwyr, nid yw'r rhan fwyaf o bobl â retinopathi yn profi unrhyw symptomau na cholli golwg; nid ydynt yn gwybod yr effeithir arnynt.
- Sgrinio llygaid yn rheolaidd yw'r ffordd orau o nodi a oes unrhyw retinopathi yn bresennol.
- Gall retinopathi cam cynnar gael ei wrthdroi drwy gadw lefelau siwgr gwaed o fewn yr ystod darged; gall retinopathi mwy datblygedig gael ei drin gan bigiadau llygaid neu gan laser.
- Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cynnig prawf sgrinio am ddim gan y GIG a gynhelir mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.
- Nid yw'r prawf sgrinio yn 100% gywir ac mae risgiau'n gysylltiedig â thriniaeth ar gyfer retinopathi diabetig.
- Dewis y cyfranogwr yw cymryd rhan mewn sgrinio llygaid diabetig.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Croeso i'r pumed adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod y gwasanaeth yw canfod retinopathi diabetig cyn colli golwg. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod nodi a thriniaeth gynnar yn gallu atal colli golwg mewn 70 – 90% o bobl â retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg[1, 2]

Cafodd DESW (Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetig Cymru yn flaenorol) ei gomisiynu'n wreiddiol fel gwasanaeth cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Daeth DESW yn weithredol ym mis Mehefin 2003 ac erbyn 2004 roedd yn darparu gwasanaeth i gyfranogwyr ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Cafodd y gwasanaeth ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tan fis Ebrill 2016 pan drosglwyddodd i ymuno â'r Rhaglenni Sgrinio seiliedig ar boblogaeth eraill a ddarperir gan yr Adran Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Cymhwystra presennol

Mae'r rhai sy'n 12 oed a throsodd sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn gymwys ac yn cael eu gwahodd am brofion sgrinio'r retina gyda DESW.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol


[1] Diabetic Retinopathy Study Research Group (1981) Photocoagulation treatment of proliferative diabetic retinopathy. Clinical application of Diabetic Retinopathy Study (DRS) findings, DRS Report Number 8. Ophthalmology 88: 583–600.

[2] Early Treatment Diabetic Retinopathy Study (ETDRS) Research Group (1985) Photocoagulation for diabetic macular oedema. Early Treatment Diabetic Retinopathy Study report number 1. Archive Ophthalmology 103: 1796–806.


Gwefan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio-llygaid-diabetig-cymru/

## Lleoliadau sgrinio

Mae clinigau DESW yn parhau i gael eu cynnal o gymysgedd o safleoedd sefydlog a safleoedd nad ydynt yn sefydlog, ar draws lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol, a chymunedol. Mae'r safleoedd sefydlog yn cynnwys ein canolfannau staff ym Mharc Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, Llys Britannia ym Mangor, ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Yn ogystal, mae gennym fynediad at glinigau sefydlog yng Nghlinig Clytha yng Nghasnewydd, Ysbyty'r Barri, a Chanolfan Iechyd Mountain View yn Abertawe. Yn dilyn effaith pandemig Covid-19, mae DESW bellach yn gweithredu o 75 o leoliadau nad ydynt yn sefydlog, mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar draws yr holl Ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gyda'r nod o gynnig apwyntiadau clinig i bob cod post o fewn 45 munud mewn car.

## Crynodeb o'r gweithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Drwy gydol 2022-23 mae wedi canolbwyntio ar barhau i adfer y Rhaglen yn dilyn pandemig Covid-19. Roedd cynnydd o ran sicrhau nifer cynyddol o leoliadau a gostyngiadau mewn rheoliadau cadw pellter cymdeithasol wedi sicrhau bod capasiti ar gyfer apwyntiadau clinigau wedi tyfu'n barhaus. Cynyddodd y gyfradd atgyfeirio i'r Rhaglen hefyd, ar ôl dechrau eleni ar gyfradd is (76% o ffigurau atgyfeirio 2019-20) gorffennodd ar ôl dychwelyd i lefelau cyn y pandemig.

Dechreuodd DESW gynnal clinigau dyddiol yng Nghanolfan Sgrinio newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Aberpennar (Tŷ Rhos) ar ddechrau mis Gorffennaf, gyda'r adeilad yn cael ei agor yn swyddogol gan Weinidog Iechyd Cymru Eluned Morgan AS ar 15 Awst 2022. Hyd yma, rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr a'r staff fel ei gilydd ynghylch y lle sgrinio newydd. Mae'r lleoliad yn cynnwys pedair o ystafelloedd clinig, sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan raglenni DESW, Sgrinio Clyw Babanod, a Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol. Mae'r lleoliad mewn man delfrydol ar y stryd fawr yn Aberpennar, sy'n dod â budd gwell hygyrchedd gydag arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus (bws a thrên) yn agos iawn.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar adfer apwyntiadau clinigau sgrinio, mae DESW wedi gwneud gwaith trawsnewid gyda'r bwriad o ddatblygu Model Gwasanaeth yn y Dyfodol ar gyfer sgrinio llygaid yng Nghymru. Adolygodd timau prosiect bob agwedd ar y Rhaglen a gwerthusodd ffyrdd newydd o weithio.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Eleni, cytunodd Llywodraeth Cymru ar newid polisi, yn unol â phenderfyniad ar sail tystiolaeth gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC) y gall pobl â diabetes y nodwyd eu bod yn wynebu risg isel o retinopathi diabetig gael eu sgrinio'n ddiogel bob dwy flynedd. Mae hyn yn newid o'r trefniadau blaenorol lle gwahoddwyd pawb â diabetes math 1 neu fath 2 a oedd yn 12 oed neu drosodd i gael eu sgrinio yn flynyddol. Mae holl raglenni sgrinio'r DU yn y broses o weithredu'r un newid. Cafodd argymhellion eu cyflwyno i Bwyllgor Sgrinio Cymru (WSC) a'u cytuno ganddo, gyda'r bwriad o

gyflwyno'r llwybr newydd yn chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y llwybr newydd hwn yn cael ei adnabod yn lleol fel y Llwybr Ailalw Risg Isel (LRRP).

Bydd tîm prosiect gweithredu DESW yn goruchwylio ac yn trefnu'r ymgysylltu gofynnol â rhanddeiliaid, dulliau a deunyddiau cyfathrebu, unrhyw hyfforddiant staff, ac uwchraddio'r system TG, er mwyn sicrhau'r newid hwn yn llwyddiannus.

## Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd Rhaglen DESW. Mae'r Rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen amser llawn, Cyfarwyddwr Clinigol sesiynol ac Arbenigwr Cyswllt. Ers 2020, mae goruchwyliaeth glinigol a phroffesiynol sgrinio wedi'i chynnal gan bedair nyrs amser llawn. Yn ystod 2022-23, cafodd Pennaeth parhaol y Rhaglen ei secondio i gynorthwyo rhaglen sgrinio arall, gyda strwythur rheoli DESW yn cael ei ddiwygio dros dro. Ar hyn o bryd mae'r arweinyddiaeth yn cael ei darparu gan Reolwr Optimeiddio amser llawn a Rheolwr Trawsnewid amser llawn.

Mae llwyth gwaith y Rhaglen yn cael ei rannu rhwng y ddwy rôl reoli hyn, gyda'r Rheolwr Optimeiddio yn gyfrifol am ddarparu gweithredol DESW o ddydd i ddydd a'r Rheolwr Trawsnewid yn goruchwylio'r prosiect Model Gwasanaeth yn y Dyfodol a'r rhaglen drawsnewid.

Mae'r tîm sgrinio, sy'n darparu'r clinigau sgrinio, yn cael eu staffio gan 55 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd (sgrinwyr), y mae 36 ohonynt wedi'u hyfforddi i gofnodi delweddau retinol yn ogystal â chwblhau'r asesiad craffter gweledol a rhoi diferion llygaid yn ein lleoliadau clinig. Mae'r staff hyn yn gweithredu o bedair canolfan ledled Cymru ac maent yn cael eu cefnogi gan reolwyr lleol sy'n cyfuno cyfrifoldebau rheoli a darparu clinigau. Mae'r holl ddelweddau retinol a gymerir ledled Cymru yn cael eu hadolygu a'u graddio gan ein tîm graddio o 12 sydd wedi'u lleoli yn Nhrefforest, de Cymru. Mae'r graddwyr yn cael eu rheoli gan staff sy'n cyflawni dyletswyddau graddio a rheoli.

Mae'r holl ddyletswyddau gweinyddol ar gyfer y Rhaglen yn cael eu cynnal gan dîm ymroddedig sydd hefyd wedi'i leoli yn Nhrefforest, De Cymru. Mae'r tîm hwn yn cynnwys 9 aelod o staff sy'n cael eu rheoli gan Gydlynydd Llwybr a Rheolwr.

## Llwybr sgrinio

- Mae'r rhai sy'n 12 oed a throsodd sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn cael eu hatgyfeirio i DESW ar gyfer sgrinio'r llygaid yn rheolaidd.

- Mae pobl gymwys yn cael eu gwahodd i sgrinio'r llygaid mewn dros 75 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, fel ysbytai, canolfannau iechyd a phractisau meddygon teulu.

- Bydd cyfranogwyr yn cael ymgynghoriad byr gydag un o Gynorthwywyr Gofal Iechyd DESW. Ar ôl gwirio craffter golwg (siart llygaid), rhoddir diferion llygaid er mwyn gwella ansawdd y ddelwedd.


- Ar ôl aros am tua 20 munud er mwyn i'r diferion llygaid weithio, bydd y ffotograffydd yn cymryd ffotograffau o gefn y llygaid gan ddefnyddio camera arbennig.

- Caiff y delweddau eu graddio er mwyn nodi a oes unrhyw retinopathi diabetig yn bresennol, ac os yw'n bresennol byddant yn nodi difrifoldeb y retinopathi.

- Caiff llythyrau sy'n cynnwys y canlyniadau sgrinio ac sy'n esbonio'r camau nesaf eu hanfon at bob cyfranogwr:

    - Lle nad oes retinopathi, neu dim ond swm cyfyngedig o retinopathi cefndirol yn bresennol, caiff y cyfranogwr ei ailwahodd i gael ei sgrinio gan DESW mewn tua 12 mis.
    - Ar gyfer yr holl gyfranogwyr y nodwyd bod ganddynt unrhyw lefel arall o retinopathi, gwneir atgyfeiriad i Adran Offthalmoleg eu hysbyty lleol i gael asesiad arbenigol a thriniaeth bosibl.
    - Bydd unrhyw gyfranogwyr sy'n feichiog yn cael eu gweld o leiaf ddwywaith yn ystod y beichiogrwydd. Cynhelir yr apwyntiadau hyn ar ôl 12 wythnos a 28 wythnos o feichiogrwydd. Os oes angen trydydd apwyntiad, bydd hyn rhwng 16 a 20 wythnos o feichiogrwydd.
    - Weithiau, nid yw'r delweddau a gymerir yn ddigon clir i wneud asesiad llawn (delweddau 'annigonol'). Mae'r cyfranogwyr hyn yn cael eu gwahodd eto er mwyn i ragor o ddelweddau gael eu cymryd mewn ail apwyntiad. Os yw'r delweddau'n cael eu dosbarthu fel rhai 'annigonol' yn yr ail apwyntiad hwn, yna bydd atgyfeiriad i Offthalmoleg i gael asesiad gydag offer gwahanol yn ofynnol.

## Ffigur 1: Llwybr ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru



# Penawdau ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 yn gynhwysol.

- Cwmpas y rhaglen oedd 31.5% o fewn 12 mis (ar 31 Mawrth 2023).
- Y gyfradd dderbyn o ran apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd oedd 81.9% (ar 31 Mawrth 2023).
- Cafwyd 15,490 o atgyfeiriadau ychwanegol ar gyfer pobl a oedd newydd gael diagnosis o ddiabetes neu a oedd newydd gofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru.
- Gwahoddwyd 84,166 o unigolion i sgrinio'r llygaid.
- Aeth 68,980 o unigolion i glinigau sgrinio llygaid (gan gynnwys pobl a aeth ar fwy nag un achlysur).
- Nid oedd 18% o'r rhai a wahoddwyd wedi mynd i apwyntiad sgrinio llygaid DESW.
- Nododd DESW 63,611 o ganlyniadau sgrinio, gan gynnwys 4,039 (6.35%) a nodwyd fel rhai 'annigonol'.
- Nododd DESW bresenoldeb rhywfaint o retinopathi diabetig mewn 14,424 o unigolion (22.68% o'r rhai a sgriniwyd).
- Nodwyd bod gan 2,713 o bobl (6.01% o'r rhai a gafodd ganlyniad sgrinio) retinopathi diabetig a allai fygwth golwg a'u hatgyfeirio gan DESW i Offthalmoleg ar gyfer asesiad arbenigol.
- Drwy gydol 2022-23, roedd cwmpas y sgrinio a'r amseroedd aros ar gyfer ailalw yn is na'r safon, gydag amrywiad o ran amseroedd aros mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.

# Data

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

Canran carfan a ddiffinnir o gyfranogwyr gweithredol cymwys â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf

Y Safon: Dylai isafswm o 80% o gyfranogwyr gweithredol cymwys gael canlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu iddynt o fewn y 12 mis blaenorol.

### Canlyniad ar gyfer 2022-23

Yn 2022-23, cwmpas sgrinio llygaid diabetig oedd 31.5% ledled Cymru.

### Tuedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd yn dangos cynnydd yn y cwmpas o 7.2% yn 2020-21 i 23.5% yn 2021-22 a 31.5% yn 2022-23.

### Trosolwg daearyddol

Mae cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn amrywio ar draws ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru gyda'r cwmpas uchaf ar 36.1% yn ardal BIP Betsi Cadwaladr a'r isaf yn ardal BIP Aneurin Bevan ar 25.5%.

### Sylw

Mae cwmpas wedi'i ddiffinio fel y ganran o gyfranogwyr gweithredol cymwys, ar adeg benodol, sydd â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis blaenorol. Mae cyfranogwyr anghymwys yn cynnwys y rhai heb unrhyw ganfyddiad o oleuni yn y ddau lygad (sy'n gwbl ddall). Mae cyfranogwyr anweithredol yn

cynnwys y rhai sydd o dan ofal gwasanaeth llygaid mewn ysbyty, neu sydd wedi dewis 'optio allan' o sgrinio llygaid yn ystod y cyfnod.

Er bod twf y gwasanaeth wedi gostwng yn 2021-22, eleni gwelwyd dychwelyd i gyfraddau atgyfeirio poblogaeth cynyddol ar gyfer DESW. Cofnodwyd twf ar gyfradd o 6.49%, gyda 15,490 o atgyfeiriadau pellach wedi'u derbyn gan y Rhaglen ar gyfer pobl a gafodd ddiagnosis o ddiabetes neu'n cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru. Mae cyfanswm y boblogaeth gymwys wedi cynyddu o 179,813 yn 2021-22 i 191,495 yn 2022/23.

Nid yw'r cwmpas yn cyrraedd y safon 80% naill ai ledled Cymru nac ar gyfer unrhyw fwrdd iechyd unigol. Mae hyn o ganlyniad i gapasiti o ran clinigau sgrinio a'r nifer cynyddol o bobl yn ein poblogaeth weithredol gymwys ledled Cymru, yn ogystal â dull parhaus o adfer a'r ôl-groniad oherwydd pandemig Covid-19.

Ar lefel Cymru gyfan mae'r cwmpas yn gostwng wrth i amddifadedd ardal gynyddu. Mae'r cwmpas uchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (cwintel 5) ar 34.6% gyda'r cwmpas isaf ar 28% yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (cwintel 1). Ceir tuedd hanesyddol ar draws rhaglenni sgrinio ar gyfer cwmpas is yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf, gan arwain at fwlch anghydraddoldeb.

Fodd bynnag, ceir rhywfaint o amrywiad ar lefel Bwrdd Iechyd ac nid yw'r duedd linol mor amlwg yn BIP Cwm Taf Morgannwg a BIP Hywel Dda. Yn 2022 sefydlodd yr Adran Sgrinio ei hyb sgrinio cyntaf ar y Stryd Fawr yn Aberpennar yn Rhondda Cynon Taf. Nod y ganolfan hon oedd cynyddu hygyrchedd a mynediad i gyfranogwyr yn ardal CTM, yn enwedig cyfranogwyr o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf. Bydd effaith y lleoliad sgrinio hwn ar anghydraddoldebau iechyd yn cael ei monitro drwy adroddiadau yn y dyfodol.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Cwmpas 2022-23

| Blwyddyn | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a gofnodwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| 2022-23 | 191,495 | 60,286 | 31.5 |

Tabl 2: Tuedd tair blynedd cwmpas

| Blwyddyn | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a gofnodwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 191,495 | 60,286 | 31.5 |
| **2021-22** | 179,804 | 42,248 | 23.5 |
| **2020-21** | 182,672 | 13,229 | 7.2 |


Tabl 3: Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Canlyniadau a gofnodwyd | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 39,247 | 9,997 | 25.5 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 40,311 | 14,562 | 36.1 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 25,358 | 8,669 | 34.2 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 29,355 | 9,278 | 31.6 |
| BIP Hywel Dda | 24,975 | 8,438 | 33.8 |
| BI Addysgu Powys | 7,885 | 2,114 | 26.8 |
| BIP Bae Abertawe | 23,195 | 6,859 | 29.6 |
| **Cymru Gyfan** | **191,495** | **60,286** | **31.5** |


Tabl 4: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Mwyaf difreintiedig 1 | 2 | 3 | 4 | Lleiaf difreintiedig 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 23.0 | 23.4 | 25.1 | 28.9 | 31.1 | 25.5 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 33.8 | 32.3 | 34.6 | 38.3 | 40.4 | 36.1 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 30.5 | 34.5 | 36.4 | 33.3 | 37.0 | 34.2 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 32.9 | 33.3 | 34.0 | 25.7 | 28.0 | 31.6 |
| BIP Hywel Dda | 25.1 | 32.3 | 34.3 | 38.3 | 28.2 | 33.8 |
| BI Addysgu Powys | 20.6 | 24.7 | 29.0 | 26.4 | 28.2 | 26.8 |
| BIP Prifysgol Bae Abertawe | 25.7 | 30.9 | 31.1 | 29.3 | 33.0 | 29.6 |
| **Cymru Gyfan** | **28.0%** | **30.5%** | **32.1%** | **33.2%** | **34.6%** | **31.5%** |

Ffigur 2: Cwmpas sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23



Ffigur 3: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd



# Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

## Diffiniad a safon

Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn cael ei diffinio fel canran y cyfranogwyr cymwys sydd wedi mynd i wahoddiad sgrinio.

Mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gyfer llygaid diabetig yn cael ei bennu o fewn egwyddorion dewis gwybodus a safon o 80% o gyfranogwyr yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu cofnodi.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr a aeth i'r apwyntiad ond nid oedd modd cymryd ffotograff am resymau technegol a chyfranogwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Yn 2022-23, y ganran oedd 81.9% gan gyrraedd y safon 80%.

## Tuedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd yn dangos cynnydd yn y ganran a gafodd eu sgrinio o 33.7% yn 2020-21 i 57.9% yn 2021-22 ac 81.9% yn 2022-23.

## Trosolwg daearyddol

Yn 2022-23 mae'r safon 80% wedi'i chyrraedd ar lefel Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amrywiad daearyddol gyda'r ganran yn amrywio o 77.8% yn BIP Caerdydd a'r Fro i 84.7% yn BILl Addysgu Powys. BIP Caerdydd a'r Fro yw'r unig ardal yng Nghymru lle nad yw'r safon 80% wedi'i chyrraedd.

## Sylw

Gwahoddodd DESW 84,156 o gyfranogwyr i sgrinio llygaid, gyda 68,970 o unigolion yn mynd i glinigau (gan gynnwys pobl a aeth ar fwy nag un achlysur) gan ddangos canran o 81.9% a chyrraedd y

safon 80% ar gyfer canran y rhai a gafodd eu sgrinio. Mae'r ganran wedi cynyddu o 33.7% yn 2020-21 i 81.9% yn 2022-23.

Cyfradd diffyg presenoldeb y gwasanaeth, ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn manteisio ar eu gwahoddiad sgrinio, oedd 18.1%, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol nad oeddent yn rhai pandemig.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 5: Canran y rhai a gafodd eu sgrinio 2022-23

| Blwyddyn | Aethpwyd | Gwahoddwyd | Canran y rhai a gafodd eu sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 68,970 | 84,156 | 81.9 |

### Tabl 6: Tuedd tair blynedd canran sgrinio

| Blwyddyn | Aethpwyd | Gwahoddwyd | Canran y rhai a gafodd eu sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 68,970 | 84,156 | 81.9 |
| **2021-22** | 48,637 | 84,076 | 57.9 |
| **2020-21** | 14,541 | 43,131 | 33.7 |

### Tabl 7: Canran sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Aethpwyd | Gwahoddwyd | Canran y rhai a gafodd eu sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 11,524 | 14,166 | 81.4 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 16,375 | 19,550 | 83.8 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 9,576 | 12,311 | 77.8 |
| BIP Cwm Taf | 10,802 | 13,362 | 80.9 |
| BIP Hywel Dda | 9,685 | 11,485 | 84.3 |
| BI Addysgu Powys | 2,858 | 3,375 | 84.7 |
| BIP Bae Abertawe | 7,722 | 9,405 | 82.1 |
| Cymru Gyfan | 68,970 | 84,156 | 81.9 |

# Cynnig sgrinio'n amserol

## Diffiniad a safon

Dylai isafswm o 95% o gyfranogwyr gweithredol cymwys gael cynnig apwyntiad ailalw o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Yn 2022-23, cafodd 4.7% o gyfranogwyr gweithredol cymwys gynnig apwyntiad ailalw o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf.

## Tuedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd wedi gostwng o 35.8% yn 2020-21 i 4.7% yn 2022-23.

## Trosolwg daearyddol

Mae amrywiad o ran ailalw ledled Cymru o 1.4% yn BILl Addysgu Powys i 12.5% yn BIP Caerdydd a'r Fro.

## Sylw

Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr (97%) sy'n cael eu sgrinio yn cael eu hailalw am sgrinio DESW, yn hytrach na chael eu hatgyfeirio i Offthalmoleg. Mae'r mwyafrif helaeth (95%) yn cael eu gosod ar lwybr ailalw rheolaidd, sy'n golygu y dylent gael eu sgrinio o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf. Mae cyfranogwyr nad ydynt yn mynd i'w hapwyntiad sgrinio hefyd yn cael llythyr atgoffa ac yn cael cynnig ailalw rheolaidd mewn 12 mis.

Ni chyrhaeddwyd y safon hon naill ai ledled Cymru nac ar gyfer unrhyw fwrdd iechyd unigol. Mae hyn oherwydd capasiti clinigau ledled Cymru ac ôl-groniad hir oherwydd pandemig Covid-19. Gall amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau sgrinio amrywio rhwng ardaloedd bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, mae apwyntiadau sgrinio llygaid yn parhau wedi'u gohirio gyda chynigion fel arfer rhwng 24 a 36 mis o'r canlyniad sgrinio diwethaf.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 8: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis 2022-23

| Blwyddyn | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis | Ailalw a gynigiwyd | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis (%) |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 2,824 | 59,281 | 4.7 |

### Tabl 9: Tuedd tair blynedd cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis


| Blwyddyn | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis | Ailalw a gynigiwyd | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis (%) |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 2,824 | 59,281 | 4.7 |
| **2021-22** | 4,223 | 64,391 | 6.6 |
| **2020-21** | 6,684 | 18,678 | 35.8 |

### Tabl 10: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| **Bwrdd Iechyd Lleol** | **Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis** | **Ailalw a gynigiwyd** | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis (%) |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 369 | 9,307 | 4 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 289 | 14,964 | 1.9 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 991 | 7,936 | 12.5 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 654 | 9,023 | 7.2 |
| BIP Hywel Dda | 316 | 7,574 | 4.2 |
| BI Addysgu Powys | 37 | 2,714 | 1.4 |
| BIP Bae Abertawe | 156 | 7,411 | 2.1 |
| Cymru Gyfan | 2,824 | 59,281 | 4.7 |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Ffigur 4: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis yn ôl bwrdd iechyd 2022-23



# Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio

## Diffiniad a safon

Dylai isafswm o 85% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr gael eu hargraffu o fewn 21 diwrnod calendr i'r apwyntiad sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Yn 2022-23, cafodd 90.3% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr eu hargraffu o fewn 21 calendr i'w hapwyntiad sgrinio.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2020-21, cafodd 96.5% o ganlyniadau eu hargraffu o fewn 21 diwrnod. Cynyddodd hyn yn 2021-22 gyda 99.9% o ganlyniadau yn cael eu hargraffu o fewn 21 diwrnod. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng i 90.3% yn 2022-23.

## Sylw

Yn 2022-23 cafodd dros 90% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr eu hargraffu o fewn 21 diwrnod calendr i'w hapwyntiad sgrinio. Bu gostyngiad o 96.5% yn 2020-12 a 99.9% yn 2021-22 sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y cyfranogwyr a welwyd yn y rhaglen sgrinio yn 2022-23.

Mae canran y llythyrau canlyniadau cyfranogwyr a argraffwyd o fewn 21 diwrnod calendr yn parhau i fod yn uwch na'r safon 85% ar lefel Cymru gyfan ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r safon 85% ym mhob ardal ddaearyddol ledled Cymru.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 11: Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod 2022-23

| Blwyddyn | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod % |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 57,441 | 63,611 | 90.3 |


### Tabl 12: Tuedd tair blynedd canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod

| Blwyddyn | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod % |
|---|---|---|---|
| **2022-23** | 57,441 | 63,611 | 90.3 |
| **2021-22** | 47,365 | 47,410 | 99.9 |
| **2020-21** | 14,518 | 15,043 | 96.5 |

### Tabl 13: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| **Bwrdd Iechyd** | **Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod** | **Llythyrau canlyniadau a argraffwyd** | **Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod %** |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 9,367 | 10,552 | 88.8 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 13,915 | 15,381 | 90.5 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 8,578 | 9,199 | 93.2 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 8,825 | 9,818 | 89.9 |
| BIP Hywel Dda | 8,015 | 8,902 | 90.0 |
| BI Addysgu Powys | 1,958 | 2,250 | 87.0 |
| BIP Bae Abertawe | 6,429 | 7,124 | 90.2 |
| Cymru Gyfan | 57,441 | 63,611 | 90.3 |

## Ffigur 5: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd yn ôl bwrdd iechyd 2022-23



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Retinopathi a Nodwyd

## Diffiniad a safon

Mae unrhyw retinopathi yn cynnwys presenoldeb pob gradd retinopathi: o retinopathi ysgafn, cefndirol i retinopathi ymledol sy'n ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i'r ysbyty ar frys. Gall presenoldeb a difrifoldeb retinopathi amrywio yn dibynnu ar lefel glwcos gwaed y person dros amser. Gall unigolyn sydd yn y categori 'unrhyw retinopathi' mewn un flwyddyn symud i 'dim retinopathi' yn y digwyddiad sgrinio nesaf.

Mae'r categori 'annigonol' yn ymwneud â'r cyfranogwyr hynny sydd wedi mynd i gael eu hasesiad sgrinio llygaid, ond ni fu'n bosibl cofnodi ffotograff clir o'u retina er mwyn gallu gwneud y graddio. Un enghraifft o hyn fyddai oherwydd bod gan y cyfranogwr gataract sy'n cuddio'r retina rhag ei weld, neu lle cafwyd problemau technegol gyda'r camera. Gall cyfranogwyr sydd â delweddau annigonol naill ai gael eu hatgyfeirio i Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty neu eu hailalw am sgrinio, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Safon: Dd/B

Ar gyfer cyfranogwyr sydd â retinopathi difrifol wedi'i nodi ar eu sgrinio (canlyniad R3A) mae'n ofynnol i DESW atgyfeirio ar frys i Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty. Y safon yw i 95% o atgyfeiriadau brys i Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty oherwydd canlyniad R3A gael eu gwneud o fewn pythefnos i ddyddiad y sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2022-23

Yn 2022-23, nid oedd gan 70.98% o gyfranogwyr retinopathi wedi'i nodi, roedd gan 22.7% 'unrhyw retinopathi' wedi'i nodi gyda 6.4% pellach â delweddau annigonol.

## Tuedd tair blynedd

Mae'r duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr heb retinopathi wedi cynyddu o 46.9% yn 2020-21 i 71.0% yn 2022-23. Mae'r duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr ag unrhyw retinopathi wedi gostwng o 45.0% yn 2020-21 i 22.7% yn 2022-23. Mae'r duedd tair blynedd ar gyfer cyfranogwyr â delweddau annigonol wedi gostwng o 8.1% yn 2020-21 i 6.4% yn 2022-23 (9.0% yn 2021-22).

## Trosolwg daearyddol

Mae amrywiad daearyddol ledled Cymru o ran y retinopathi a nodwyd. Mae'n amrywio o 68.2% o bobl yn BIP Caerdydd a'r Fro heb retinopathi i 75.9% heb retinopathi yn BIP Bae Abertawe.

## Sylw

Yn ystod 2022-23 ledled Cymru roedd 70.98% o gyfranogwyr heb unrhyw retinopathi wedi'i nodi o'u sgrinio. Roedd 22.7% ag ‘unrhyw retinopathi’ wedi'i nodi gyda 6.4% pellach â delweddau annigonol.

Mae cyfran y cyfranogwyr heb retinopathi wedi cynyddu o 46.9% yn 2020-21 i 71% yn 2022-23. Yn dilyn y saib o ran sgrinio llygaid diabetig yn ystod pandemig Covid-19, cafodd ailalw cyfranogwyr ei flaenoriaethu gyda chyfranogwyr risg uwch yn cael eu gwahodd i fynychu gyntaf. Felly byddai disgwyl cyfrannau uwch o bobl â retinopathi yn ystod cyfnod cychwynnol adfer y rhaglen.

Ledled Cymru, o'r 22.7% o gyfranogwyr a sgriniwyd sydd ag unrhyw retinopathi, mae cyfran llawer llai lle nodir retinopathi sy'n bygwth eu golwg. Mae retinopathi sy'n bygwth golwg neu faciwlopathi yn ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i wasanaethau llygaid ysbytai i gael asesiad a thriniaeth arbenigol. O'r holl gyfranogwyr, nodwyd bod gan 4.3% retinopathi sy'n bygwth golwg. Mae hyn yn amrywio o 3.3% yn BIP Bae Abertawe i 5.2% yn BIP Caerdydd a'r Fro.

Yn 2022-23 gwnaed 335 o atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi difrifol (R3A) gyda 220 wedi'u gwneud o fewn 14 diwrnod. Mae hyn yn 65.7% o atgyfeiriadau brys a wnaed o fewn 14 diwrnod, sy'n is na'r safon 95%. Ceir amrywiad daearyddol ledled Cymru gyda 52.8% o atgyfeiriadau yn BIP Aneurin Bevan wedi'u gwneud o fewn 14 diwrnod o gymharu â 81.8% yn BILl Addysgu Powys.

Mae atgyfeiriadau brys hefyd yn cael eu gwneud i Offthalmoleg ar gyfer niweidiau eraill. O'r 561 o atgyfeiriadau brys a wnaed ledled Cymru yn 2022-23, gwnaed 226 ar gyfer niweidiau eraill a nodwyd yn ystod y broses raddio.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 14: Dadansoddiad o bresenoldeb retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Canlyniadau a gofnodwyd | Dim retinopathi | % | Unrhyw retinopathi | % | Delwedd annigonol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 10,552 | 7,582 | 72.0 | 2,336 | 22.14 | 634 | 6.0 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 15,381 | 10,925 | 71.0 | 3,374 | 21.94 | 1,082 | 7.0 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 9,199 | 6,272 | 68.2 | 2,407 | 26.17 | 520 | 5.7 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 9,818 | 6,837 | 69.6 | 2,342 | 23.85 | 639 | 6.5 |
| BIP Hywel Dda | 8,902 | 6,260 | 70.3 | 2,061 | 23.15 | 581 | 6.5 |
| BI Addysgu Powys | 2,250 | 1,586 | 70.5 | 526 | 23.38 | 138 | 6.1 |
| BIP Bae Abertawe | 7,124 | 5,407 | 75.9 | 1,294 | 18.16 | 423 | 5.9 |
| Cymru Gyfan | 63,611 | 45,148 | 71.0 | 14,424 | 22.68 | 4,039 | 6.4 |

Tabl 15: Canlyniadau retinopathi yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg yn ôl Bwrdd Iechyd | Retinopathi/ macwlopathi difrifol * | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi difrifol yn ôl Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 472 | 4.5 | 72 | 0.7 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 614 | 4.0 | 72 | 0.5 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 483 | 5.2 | 53 | 0.6 |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 426 | 4.3 | 53 | 0.5 |
| BIP Hywel Dda | 368 | 4.1 | 42 | 0.5 |
| BI Addysgu Powys | 106 | 4.7 | 11 | 0.5 |
| BIP Bae Abertawe | 233 | 3.3 | 30 | 0.4 |
| **Cymru Gyfan** | **2,713** | **4.3** | **335** | **0.5** |

* Nifer y bobl â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg sy'n ddifrifol – noder, mae'r cyfranogwyr hyn yn ymddangos yn y categori sy'n bygwth golwg a'r categori difrifol.

Tabl 16: Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) i Offthalmoleg o fewn 14 diwrnod yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Nifer yr atgyfeiriadau R3A brys a wnaed | Atgyfeiriadau R3A a wnaed o fewn 14 diwrnod | % |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 72 | 38 | 52.8 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 72 | 52 | 72.2 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 53 | 36 | 67.9 |
| BIP Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 53 | 38 | 71.7 |
| BIP Hywel Dda | 42 | 25 | 59.5 |
| BI Addysgu Powys | 11 | 9 | 81.8 |
| BIP Bae Abertawe | 30 | 20 | 66.7 |
| Cymru Gyfan | 335 | 220 | 65.7 |

Mae cyfanswm Cymru yn cynnwys nifer bach o gyfranogwyr lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i gofnodi.

Tabl 17: Pob atgyfeiriad brys i Offthalmoleg yn ôl bwrdd iechyd 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Pob atgyfeiriad i Offthalmoleg ar gyfer RD | Pob atgyfeiriad brys i Offthalmoleg ar gyfer niweidiau eraill * | Cyfanswm yr atgyfeiriadau brys |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 72 | 36 | 108 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 72 | 56 | 128 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 53 | 31 | 84 |
| BIP Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 53 | 43 | 96 |
| BIP Hywel Dda | 42 | 25 | 67 |
| BI Addysgu Powys | 11 | 5 | 16 |
| BIP Bae Abertawe | 30 | 27 | 57 |
| Cymru Gyfan | 335 | 226 | 561 |

Mae cyfanswm Cymru yn cynnwys nifer bach o gyfranogwyr lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi'i gofnodi.

* Os, wrth asesu delwedd ar gyfer retinopathi diabetig, bydd y graddiwr yn sylwi ar fater nad yw'n ymwneud â diabetes, efallai y bydd hyn hefyd yn ysgogi atgyfeiriad rheolaidd neu frys.

# Diffiniadau

## Gweithredol cymwys

Mae'r diffiniad o'r boblogaeth weithredol gymwys yn cynnwys cyfranogwyr yn y cyflyrau canlynol:

- Aros am apwyntiad/triniaeth sgrinio
- Yn cael eu sgrinio / graddio
- O dan ofal Offthalmoleg ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai diabetig
- Nodwyd fel dychwelwyd drwy swyddfa'r post

Mae'r boblogaeth weithredol gymwys yn eithrio cyfranogwyr ataliedig ac anweithredol:

## Ataliedig

- O dan ofal offthalmoleg ar gyfer retinopathi diabetig
- Gohiriwyd y sgrinio
- Anabledd corfforol/dysgu neu feddyliol dros dro
- Sgrinio wedi'i wrthod
- O dan 12 oed

## Anweithredol

- Wedi optio allan o sgrinio
- Yn anffit yn feddygol
- Dim canfyddiad o olau yn y ddau lygad
- Salwch angheuol
- Ymadawedig
- Rhyddhawyd
- Wedi symud allan o'r ardal
- Ddim yn ddiabetig bellach

- Anabledd corfforol/dysgu/meddyliol parhaol
- Wedi cofrestru'n ddall

## Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio: % y cyfranogwyr cymwys sydd wedi mynd i wahoddiad sgrinio.

Mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gyfer llygaid diabetig yn cael ei bennu o fewn egwyddorion dewis gwybodus a safon o 80% o gyfranogwyr yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu cofnodi.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr a aeth i'r apwyntiad ond nid oedd modd cymryd ffotograff am resymau technegol a chyfranogwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

## Cwmpas

Cwmpas: % carfan a ddiffinnir o gyfranogwyr gweithredol cymwys â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu iddynt o fewn y 12 mis blaenorol.

## Bwrdd Iechyd

Dyma fwrdd iechyd preswyl y cyfranogwr.

## Gwahoddwyd

Cyfranogwyr sy'n cael apwyntiad a gynigiwyd gyntaf (heb ei ganslo gan y Rhaglen), o fewn mis yr adroddiad.

## Profwyd

Nifer y cyfranogwyr â chanlyniad graddio terfynol.

## Retinopathi/Macwlopathi sy'n Bygwth Golwg

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi cyn ymledol neu ymledol: R2M0, R2M1, R3AM0, R3AM1, R3SM1. Mae hefyd yn cynnwys canlyniad graddio o retinopathi cefndirol bach gyda macwlopathi R1M1.

## Retinopathi/Macwlopathi Difrifol

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi difrifol (ymledol): R3AM0, R3AM1.

# Tîm Cynhyrchu

| | |
|---|---|
| Kate Morgan | Pennaeth y Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Gavin Bhakta | Uwch-arbenigwr Gwybodeg a Data |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Heather Lewis | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |
| Sikha de Souza | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |
| Samuel Humphrey | Rheolwr Cyfathrebu |
| Alex Stevens | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

1 Llys Fairway

Glan-Bad

Trefforest

Rhondda Cynon Taf

CF37 5UA

E-bost: Sgrinio-llygaid-diabetig@wales.nhs.uk

Ffôn: 0300 003 0500

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales